

GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU

SWYDD-DDISGRIFIAD

Adran	Adran Fflyd a Gwasanaethau Peirianeg
Swydd	Prentis Technegydd LGV
Gradd	Prentis
Lleoliad	Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Yn gyfrifol i	Pennaeth Fflyd a Pheirianeg

Mae'r Swydd-Ddisgrifiad hwn yn cyfeirio at brif bwrpas a chyfrifoldebau'r swydd. Nid yw hyn o reidrwydd yn nodi mewn manylder yr holl dasgau sydd eu hangen i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Caiff y Swydd-Ddisgrifiad hwn ei adolygu yn ôl y gofyn er mwyn sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion busnes y Gwasanaeth

PRIF BWRPAS Y SWYDD

I hyfforddi, dros gyfnod o bedair blynedd o Brentisiaeth mewn archwilio, profi, gwasanaethu, trwsio a chynnal cerbydau, peiriannau trymion a systemau trydanol fecanyddol.

Disgwylir i ddeiliad y swydd ennill cymhwyster Prentisiaeth Sylfaenol Lefel 2 a 3 ochr yn ochr â'u gwaith bob dydd.

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

1. I drwsio a chynnal a chadw cerbydau ac offer peiriannau trymion, gan gynnwys gweithdrefnau archwilio a phrofi
2. I weithio fel technegydd mecanyddol aml sgiliau dan hyfforddiant yn datblygu sgiliau ychwanegol gan gynnwys atgyweiriadau weldio drwy law aml bwrpasau, adeiladu, atgyweirio, cynnal a chadw a gwneud diagnosis o namau ar systemau hydroleg a niwmateg a datrys namau trydanol ac electronig
3. I gwblhau cymhwyster Prentisiaeth Sylfaenol Lefel 2 ochr yn ochr â'u gwaith bob dydd. yn llwyddiannus
4. I gasglu a dychwelyd cerbydau, peiriannau trymion ac offer i'w trwsio a'u cynnal, ac i gwrdd â gofynion gweithredol y tu fewn a thu allan i ardal Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi derbyn trwydded yrru briodol.

GOFYNION GWASANAETH SAFONOL

- I fynychu cyrsiau hyfforddi mewnol ac allanol yn ôl yr angen.
- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesurol â'r raddfa a'r swydd.
- I gydweithredu'n llawn ag unrhyw gynllun neu gynllun peilot o'r fath a gyflwynir o fewn yr Adran neu ar draws y Gwasanaeth.
- I weithredu egwyddorion Polisiâu Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth a Chynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth wrth weithredu'r dyletswyddau uchod.
- I ufuddhau i Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch/Polisiâu a Gweithdrefnau Gwasanaeth Perthnasol ac i gymryd gofal rhesymol am eich iechyd a diogelwch eich hun yn ogystal â rhai personau eraill a all gael eu heffeithio'n andwyol gan eich gweithredoedd/anweithredoedd.

GWERTHOEDD SEFYDLIADOL

Wrth berfformio'r rôl uchod, mae'n ofynnol i bob gweithiwr y Gwasanaeth ddilyn a hyrwyddo Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth ar bob adeg, megis bod:

- Yn broffesiynol
- Yn ofalgar
- Yn barchus
- Yn bwrpasol
- Yn ddibynadwy
- Yn rymus
- Yn ddisgybledig
- Yn hydwyth

Os gwelwch yn dda, noddwch:-

Ni all ymgeiswyr sy'n dymuno cael eu hystyried fod â chymhwyster uwch na chymhwyster gwrthdrawiadol o fewn yr un pwnc nac ychwaith ymgymryd ag unrhyw gymhwyster arall a ariennir gan y llywodraeth.

